

Tasg 1

Yn wir mae llais y plentyn yn ganolog i unrhyw addysgu gydag Estyn (2016, t.1) yn nodi y gall cyfranogiad disgyblion arwain at wella ysgol. Defnyddir LIC (2011) y diffiniad canlynol yn eang i gyfleu llais y disgybl; “Ystyr cyfranogiad yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis”. Ar sail hyn, cymerwyd ysbrydoliaeth o’r cynllun tymor canolig a ddatblygwyd gan ddisgyblion y dosbarth gyda’i hargymhellion hwy yn bwydo i mewn i’r gweithgareddau dan sylw. Y thema a dystiwyd yn y fideo fydd trychfilod sef thema’r tymor hwn. Mae’r rhesymeg tu’n ôl i’r thema hwn yn ddiddorol ac yn deillio o lun a ddaeth i’r dosbarth un bore gan ddisgybl. Llun o chwilen a ddarganfuwyd yn ardd y disgybl oedd ac fe ddaeth â llun i’r ysgol er mwyn ofyn i athrawon y dosbarth beth oedd. Taniwyd chwilfrydedd y disgyblion yn y maes yma ac felly ffurfiwyd map meddwl o’r holl bethau yr hoffai’r disgyblion wybod am drychfilod. Un gweithgaredd a nodwyd gan y disgyblion yr hoffent ymgymryd mewn oedd helpa trychfilod ar ail oedd y cyfle i greu trychfilod.

Er mai prif nod y gweithgaredd cyntaf ym marn y disgyblion oedd chwilota am drychfilod, yn wirioneddol y prif nod oedd cyd-weithio a datblygu geirfa newydd wrth drafod gyda ffrind yr hyn yr oeddent yn gweld. Prif nod yr ail weithgaredd yw datblygu patrymau brawddeg gan ddefnyddio geirfa briodol sy’n bwrpasol i’r dasg.

Mae modd i’r gweithgareddau trawsgwricwlaidd yma gynnig llu o gyfleoedd i addysgu elfennau iaith. Mi fyddai’r grŵp chwilota - gweithgaredd 1 (Gweler atodiad 1) yn medru meithrin y sgil “mynegi barn gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol” (APADGOS, 2008) yn ogystal â medru gofyn cwestiynau amrywiol yn ôl llinyn llafaredd wrth ddatblygu eu medrau llafar wrth chwilota am drychfilod. O gylch sgiliau darllen, byddai modd i grŵp 1 “defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i ddeall eu hystyr” (APADGOS, 2008) tra byddai grŵp 2 yn canolbwyntio ar “ddefnyddio pob ffonemau a graffem cyfatebol yn hyderus wrth gyfuno a segmentu geiriau wrth ddarllen y BYDSI; tra byddant i gyd yn meithrin y gallu i “ysgrifennu at ddibenion gwahanol” o dan gyd-destun ysgrifennu wrth gofnodi ar y siart (APADGOS, 2008.)

Ellir yr ail weithgaredd sef creu trychfilod allan o glai ‘air drying’ barhau i gynnig cyfleoedd i ddatblygu eu galluoedd ieithyddol megis “siarad yn fanwl am bethau y maent wedi’u llunio neu wedi’u gwneud gan egluro’r broses” ar sail y llinyn llafaredd gyda grŵp is yn “siarad am bethau y maent wedi llunio neu gwneud”. (APADGOS, 2008)

Y gynulleidfa arfaethedig a gynlluniwyd ar eu cyfer ydy grŵp o 25 o ddisgyblion 6-7 oed, dosbarth blwyddyn 2. O fewn y dosbarth mae yna ffin amlwg rhwng y disgyblion gwanaf a'r rheini sy'n datblygu'n dda. Cafwyd y disgyblion eu rhannu i grwpiau gallu cymysg er mwyn annog y disgyblion gallu uwch i gyd-weithio a chefnogi'r rheini nad oedd efallai yn medru darllen, cofnodi a ffurfio brawddegau'n dda iawn. Cymerwyd ysbrydoliaeth o waith Vygotsky (1962) a'i ddamcaniaeth addysg orau yn digwydd pan mae disgyblion yn rhyngweithio â chyfoedion, oedolion ac arbenigwyr arall.

Tasg 2

Linc y fideo - <https://youtu.be/pCU8QgbxSpM>

Tasg 3

Wrth adfyfyrio ar y tasgau o dan sylw mae modd canolbwyntio ar yr elfennau canlynol; iaith yr athrawes, iaith y disgyblion a'r ffordd ymlaen. Wrth adfyfyrio'n onest, rhaid cyfaddef nad yw'r wers dan sylw o reidrwydd yn wers ieithyddol, fodd bynnag yn yr ysgol maent yn hoff o ffocysu ar ddysgu patrymau brawddeg a sgiliau iaith trwy wneud tasgau ymarferol. O fewn y wers felly mae'r disgyblion yn profi'r cyfleoedd i drafod a chydweithio ar lafar ac wrth gymryd nodiadau gyda'r cyfrifoldeb o sicrhau patrymau brawddeg cywir a'r defnydd o Gymraeg yn berchen i'r disgyblion. Galluoga hyn iddynt ymgorffori eu hawliau yn ôl y CCUHP (2011); erthygl 30 "eich hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun" o fewn addysg. I ategu, pwysleisia'r Cwricwlwm Cymreig (ACCAC, 2003) y dylid cydnabod y lefelau gwahanol o ruglder sydd yn y Gymraeg ac felly yw'r hyn yr wyf yn gwneud yn y fideo. Er nad yw'r iaith a'i ddefnydd yn ramadegol gywir gan y plant, rhaid cydnabod eu bod yn 6-7 oed ac yn parhau i ddysgu a datblygu. Mae'r unigolion sydd yn y fideo wedi ymdrechi'n galed gyda thua hanner ohonynt o fewn y fideo yn deillio o gefndiroedd Saesneg.

Iaith yr athrawes

Ar y cyfan teimlir bod safon yr iaith yn dda gyda mân wallau treiglo yn bresennol wrth siarad ar lafar megis 'y taflen' yn hytrach na 'y daflen' a hefyd dylanwad y Saesneg wrth roi clod i ddysgwyr megis 'Good girl'. Yn sicr nid wyf yn arfer defnyddio'r geiriau 'Good girl' neu 'Good boy' yn hytrach yn dewis ansoddeiriau parthed 'Gwych', 'Arbennig' neu 'Ffantastig'. Rhaid mynegi, wrth adfyfyrio ni theimlaf fod y wers yma'n adlewyrchiad da iawn o'm gallu ar lafar wedi i mi gael fy mhenodi'n rhagorol gan yr ysgol a'r tiwtor prifysgol yn ddiweddar

am fy rhuglder ar lafar a fy ngallu i amrywio tŷn ac ieithwedd yn ôl gallu'r disgyblion.

(Gweler atodiad 2)

Ar y llaw arall, wrth adfyfrio mae modd gweld y dull o gwestiynu'n cael ei ddefnyddio i herio'r disgyblion a'u syniadau yn ogystal â'u defnydd i atgyfnerthu dealltwriaeth y plant. Wrth ofyn cwestiynau yn y dosbarth arweiniodd at ffurfiau brawddeg dda gan y disgyblion yn ystod y dasg yn yr ardd wyllt a'r gweithgaredd clai. Anogwyd hefyd iddynt ofyn cwestiynau eu hun i'r cynorthwyydd a'r athrawes er mwyn gwella dealltwriaeth eu hun.

Er hyn, teimlaf y gallaf fod wedi modelu patrymau brawddeg yn well megis 'chi'n mynd i' yn hytrach nag 'rydych chi'n mynd i'. Nid oes esgusodion am y fath yma o ieithwedd ac yn amlwg rwyf wedi ymdrin yn llai ffurfiol nag y dylwn. Fodd bynnag rhaid nodi nad dyma fy iaith arferol ac rwy'n sicrhau, fel y tystia nifer fawr o arsylwadau bod fy iaith yn raenus a phatrymau brawddeg yn cael ei ddefnyddio'n gywir.

Fel rôl athrawes mae hi'n ddyletswydd i sicrhau bod y disgyblion yn datblygu medrau cadarn yn yr iaith Gymraeg boed ar lafar, yn ysgrifenedig neu wrth ddarllen; yn enwedig gyda tharged LLC (2017, t.2) o gyrraedd Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodwyd mai "addysg sy'n ganolog i'n gweledigaeth" gan ddatgan y "dylai pobl ifanc bod yn gadael y system addysg yn barod i ddefnyddio'r iaith ym mhob cyd-destun". Rwyf yn cyfaddef wrth edrych yn ôl ar y fideo y gallaf wedi cywiro rhai gwallau amlwg gan y disgyblion a dyma'r hyn sydd yn wych am adfyfrio. Ond, fel y nodwyd eisoes, rhaid ystyried bod tua hanner y disgyblion a gwelwyd yn y fideo yn deillio o gefndir Saesneg ac felly wedi dysgu'r Gymraeg o'r newydd ac ond yn manteisio ar gyfleoedd i'w ddefnyddio yn yr ysgol. Felly er nad ydynt yn ramadegol gywir, rwyf yn cefnogi'r dull rwyf wedi cymryd ond cywiro geirfa ac ieithwedd Saesneg yn hytrach na chywiro pob elfen o'i hiaith. Wedi'r cwbl, rydym yma i addysgu'r plant "nid ei ddiflasu a dinistrio'u hymdrechion" (Gweler atodiad 3). I gefnogi ymhellach, mae polisi marcio a sylwadau'r ysgol yn nodi'n glir y dylai athrawon ond gwneud sylw ar un i ddau wall o fewn iaith a gwaith disgyblion y Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau nad ydym yn digalonni'r dysgwyr. Ac i gadarnhau fy newisiadau, mynega Garcia (2009) bod plant yn datblygu sgiliau gwybyddol wrth ymgeisio gwneud synnwyr o'r dasg gan ddefnyddio'u dwy iaith ochr yn ochr. Atgyfnertha Lewis (2011) ymhellach y gall hyblygrwydd yn nefnydd y ddwy iaith arwain at sgiliau gyfieithu sydd bellach yn sgil hynod bwysig y dylai plant fabwysiadu, yn bennaf yn niwygiad y cwricwlwm a'r maes dysgu 'Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu'.

Pwynt y mae modd nodi o'r fideo yw fy ngallu i gynnig arweinyddiaeth i ddisgyblion gyda'u patrymau brawddeg eu hun yn ogystal â rhoi amser iddyn nhw i feddwl neu ffonio ffrind am gymorth os nad ydynt yn sicr o air Cymraeg ac yn ei fynegi'n Saesneg. Eto cefnoga hyn y safbwynt a soniwyd uchod parthed gwerthfawrogi bod gwahanol lefel o ruglder yn y Gymraeg gan hyrwyddo elfennau o Asesu ar gyfer Dysgu.

Iaith y disgyblion

O fewn y gweithgaredd yn yr ardd wyllt, yr oedd gallu'r plant yn amrywio. Rhaid nodi fy mod wedi gwahaniaethu'r taflenni yn ôl gallu'r unigolion (Gweler atodiad 1).

Mae modd tystio yn y fideo'r gwahanol lefel o ruglder sydd o fewn y dosbarth parthed eu gallu Cymraeg a'u galluoedd yn gyffredinol. Wrth adfyfyrio sylweddolaf fy mod wedi colli cyfleoedd i ymestyn trafodaethau ac ymatebion rhai o'r dysgwyr gan ddwyn cyfleoedd oddi wrthynt i gyfoethogi eu dealltwriaeth.

Gweler un disgybl yn yr ardd wyllt fydd yn siŵr o dynnu sylw parthed eu gallu iaith yn syth. Hoffwn nodi mai disgybl o allu is ydy'r disgybl yma, sy'n gweld hi'n anodd iawn i ddarllen a mynegi barn o flaen eraill. Ellir nodi o'r fideo ei fod yn poeni am sut i ysgrifennu gair pe byddai'n dod ar draws greadur nad oedd ar y rhestr barod. Er rwy'n siŵr y byddai unrhyw athro da wedi cywiro defnydd o eirfa ac iaith y bachgen yma, ni wnes i; Nid am nad wyf yn athrawes dda, ond am fod hi'n gam enfawr i'r bachgen yma fynegi barn o flaen eraill. Yr oedd yn gyfforddus tu allan i'r dosbarth ac yn barod i fwynhau tasg llythrennedd hwylus yn yr awyr agored gan gymryd ysbrydoliaeth oddi wrth Donaldson (2015, t.10) lle dylai gwersi cael ei "gynllunio mewn ffyrdd a fydd yn ennyn diddordeb ym mhob plentyn a pherson ifanc ac yn ei alluogi i lwyddo". Er nad oes modd gweld hyn yn y fideo, mi wnaeth y bachgen yma ofyn cwestiynau arbennig am eu gallu gan fynegi barn am ei hoff drychfil a dangos chwilfrydedd wrth chwilota.

Wrth adfyfyrio ar y dasg clai, mi ddylwn fod wedi annog y disgyblion i ddefnyddio patrymau brawddeg i ymateb i'm cwestiynau e.e. Hoffwn i greu lindysyn. Rwyf yn flin a'n hun fy mod wedi colli'r cyfle yma ac yn falch o'r cyfle i adfyfyrio. Fodd bynnag, yr oedd y disgyblion yn trafod yn dda ymhlith ei gilydd gan ofyn cwestiynau da iawn parthed 'Beth wyt ti'n creu?', 'Alli di fy helpu i?' a 'Sut wnes di hynna?'. Braf oedd gweld y disgyblion yn cydweithio'n dda gan gyrraedd rhai o'r sgiliau llafar a osodwyd yn y cynllun wers.

Y ffordd ymlaen

Wrth ystyried y ffordd ymlaen, yn gyntaf rhaid i mi barhau i ddatblygu fy medrau llafar ymhellach er mwyn sicrhau iaith raenus a chywir ar bob adeg. Er mwyn gwneud hyn, byddaf yn parhau i ffilmio ambell wers er mwyn medru adfyfyrio ar y cynnydd a lefel yr iaith. Yn ogystal byddaf yn parhau i ddefnyddio Cysill i wirio fy ngwaith, cynlluniau ac ymadroddion y byddaf yn ei ddefnyddio ar lafar. Er mwyn ymarfer cystrawen a chywirdeb iaith mi fyddaf yn ymgymryd mewn tasgau o lyfrau ‘Seren Iaith’ a fydd yn medru ymarfer pob rhan o’r llythrennedd yn ogystal ag Adnoddau Datblygu Cywirdeb Iaith Canolfan Peniarth ar eu gwefan.

Yn ogystal mae’n sicr rhaid i mi ganolbwyntio ar wella fy nghystrawen parthed y ffordd yr wyf yn defnyddio patrymau brawddeg ar lafar. Teimlir fy mod wedi cyfarwyddo gyda’r dosbarth ac felly mae’r iaith yn y fideo yma yn eithaf anffurfiol. Rhaid sicrhau fy mod yn defnyddio patrymau cywir a ffurfiol i naws os yn berthnasol er mwyn modelu’n gywir a sicrhau bod y disgyblion yn cael y dylanwadu gorau posib. Er mwyn gwneud hyn byddaf yn ‘chwarae rôl’ adref, gan ymarfer trafodaethau a chwestiynau posib cyn bob gwers. Mi fydd y llyfr ‘Seren Iaith’ eto yn cefnogi hyn ond byddaf hefyd yn sicrhau fy mod yn cludo’r ‘Bachu Iaith’ gennyf i bob man gan ei fod yn darparu patrwm brawddeg a chwestiynau perthnasol i lawr y dosbarth. Wrth barhau, rhaid osgoi dylanwad y Saesneg ac yn y gwersi ers y fideo yma rwyf wedi bod yn garcus iawn i sicrhau nad yw’r geiriau yma’n cael ei ddefnyddio wrth greu cerdyn ymadroddion i roi ar fachyn y ‘Bachu Iaith’.

Yn wir, mae’n rhaid i mi gymryd mwy o amser i ffocysu ar y disgyblion sydd o’r mlaen gan ganolbwyntio a thalu sylw i’r iaith a’r gystrawen y maent yn eu defnyddio. Cyniga hyn cyfleoedd i mi fedru gwirio ambell i air, gystrawen neu dreiglod os yn berthnasol. Er, fel y nodwyd eisoes nad yw’r polisi marcio yn caniatáu rhoi ormod o bwysau ar gamgymeriadau, fyddai rhoi sylw i nodweddion sylweddol a all achosi broblemau yn y dyfodol, bod o fudd i’r disgyblion.

I gloi felly, yn amlwg mae angen parhau i fireinio fy ngallu ieithyddol ac o gylch y disgyblion rhaid sicrhau olrhain a thracio cyson o’u datblygiadau. Ond yn ôl Estyn (2013, t.8) yr hyn sy’n bwysig yw “sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng sesiynau ffurfiol i addysgu ac atgyfnerthu medrau iaith a chyfleoedd anffurfiol i’w defnyddio” yn hytrach na chywirdeb yr iaith eu hun am fod plant o fewn y cyfnod sylfaen yn dysgu trwy chwarae a sefyllfaoedd anffurfiol ei naws (Siencyn, 2010).

Rhestr gyfeiriadau

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. (2003) *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig*. Caerdydd: ACCAC

Clement, B. & Lloyd, L. (2011) *Bachu Iaith*, Caerfyrddin: Canolfan Peniarth

Clement, B. a Breese, N. (2011) *Seren Iaith*, Aberystwyth: Atebol.

Clement, B. a Breese, N. (2014) *Seren Iaith 2*, Aberystwyth: Atebol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. (2011) *Hawliau Plant*. Abertawe; Comisynydd Plant Cymru. Ar gael; <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp/> . [Darllenwyd 25ain o Fai 2019]

Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: *Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Estyn. (2013) *Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir*. Caerdydd: Estyn. Ar gael; <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Cymraeg%20yn%20y%20Cyfnod%20Sylfaen%3A%20Datblygu%20Cymraeg%20fel%20iaith%20gyntaf%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20a%20sector%20nas%20cynhelir.pdf> [Defnyddiwyd 15 o Fai 2019].

Estyn. (2016) *Cyfranogiad disgyblion: canllaw arfer orau*. Caerdydd: Estyn. Ar Gael; https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Pupil%20participation%20cy_0.pdf [Defnyddiwyd 15 o Fai 2019].

Garcia, O. (2009) *Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective*. Chichester: Wiley-Blackwell.

Lewis, W.G. (2011) '*Addysg Ddwylieithog yn yr unfed ganrif ar hugain: adolygu'r cydestun rhyngwladol*'. Gwerddon: Cyfnodolyn Academiaidd Cymraeg. Rhif 7: ISSN 1741-4261 [Defnyddiwyd 15 o Fai 2019].

Llywodraeth Cymru. (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) *Cyfranogiad disgyblion- canllaw arfer da*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o:

<http://www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/uploads/publications/541.pdf> [Defnyddiwyd 15 o Fai 2019].

Siencyn, S.W (2010) *Y Cyfnod Sylfaen: Athroniaeth, Ymchwil ac ymarfer*. Caerfyrddin. Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

Vygotsky, L.S. (1962). *Thought and Language*. Cambridge, MA: MIT Press.

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2008) *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun gwers

Enw'r Hyfforddai		Shannon Evans	Cyfeirnod y sesiwn:	Dyddiad:	14-05-19	Dosbarth:	2 Aeron	Cynllun Ffocws y Cynnod Sylfaen 2d
Targed(au) Hyfforddi Personol				Nifer y dysgwyr:	25	Oed:	6-7 oed	
Nodau/bwriadau dysgu:		Gweithgareddau'n cylchdroi ar sail datblygu ymwybyddiaeth o drychfilod a'u cynefin	Meini prawf llwyddiant:	B.Y.D.S.I - ddefnyddio sgiliau chwilota. - gofnodi'r data mewn siart rhicbren. - gyd-weithio â ffrind.		Ateb anghenion y dysgwyr:	- Gwahaniaethu taflenni gwaith - Gwahaniaethu disgwyliadau/sgiliau'r wers - Darparu cymorth a goruchwylio lle bo'n berthnasol	

Tasgau cyflwyniad/diweddgllo	Prif weithgareddau <i>Dylid defnyddio y ffurflen hon mewn perthynas â Ffurflen 2C</i>	Adnoddau/ Geirfa Allweddol	Asesu ar gyfer Dysgu (cyfleoedd a'r strategaethau a ddefnyddiwyd)
Cyflwyniad Cyflwyno iddynt y cysyniad o siart rhicbren gan ofyn iddynt a ydyn nhw'n cofio beth ydyw. Disgwyl a thrafod ymatebion gan fynd ymlaen i fodelu enghraifft ar y bwrdd gwyn ar y cyd gyda'r disgyblion. Gofyn i rai ohonynt ddod i fyny i gofnodi. Rhoi arweinyddiaeth iddynt parthed y dasg chwilota gan fynegi'r canlynol ' <i>Mae Mrs Jones wedi dweud wrtha i fod yna drychfilod wedi dianc o barc natur leol ac mae hi'n credu eu bod nhw yn yr Ardd Wylt! Fedrwch chi eu darganfod?</i> ' Rhannu'r dosbarth i grwpiau.	Tasg a gynlluniwyd gan yr hyfforddai (pwrpas, braslun o rôl yr hyfforddai a'r dysgu): Mynd am daith i'r ardd wylt. Chwilio am drychfilod gydag ysbieddrych a photyn. Llenwi siart rhicbren o'r sawl a gwelwyd. Arael iddynt fynd ar eu pen eu hunain i chwilota am drychfilod. Cerdded o gwmpas yr ardd gyda hwy gan ofyn cwestiynau, mynegi diddordeb a channol gwaith da. Disgwylir llawer o gwestiynau oddi wrth y plant yn ystod y daith parthed – Beth yw <i>hwn</i> ? Lle mae <i>hwn</i> yn byw? Gwahaniaethu - Uwch; Llenwi siart rhicbren eu hun gan gymwys enwau'r trychfilod y maent yn darganfod. Gadael iddynt fynd ar eu pen eu hunain gan gydweithio gyda phartner.	Trychfilod Trychfil (Gweler y daflen chwilota) Ardd Wylt Chwilota clai rholio siâp pêl hir fach gwastad gofalus rhaid i ti defnyddia	- Beth yw siart rhicbren? - Sut ydych chi'n cofnodi mewn siart rhicbren? - Sut mae dangos 5 mewn siart rhicbren - Sawl trychfil ydych chi wedi gweld? - Lle ddarganfuoch chi? - Ydych chi'n credu eu bod nhw'n greaduriaid unig neu'n byw mewn grŵp? - Pe taset ti'n drychfil pa un fyddet ti a pham? - Sut wyt ti'n creu....? - Alli di ddangos i fi sut? Disgwylir i nifer o gwestiynau codi yn y man a'r lle ac felly ni all baratoi amdanynt. <u>AaGD</u> – - Cyfeirio'n ôl at BYDSI - Cwestiynu - Ffonio ffrind - Trafod fel dosbarth - Cyd-weithio
Diweddgllo Gofyn i'r dosbarth adrodd yr hyn maent wedi gwneud yn ystod y wers i ffrind. Gofyn iddynt y canlynol ; Ba drychfil welest ti a sawl un oedd? Pe taset ti'n drychfil, pa un fyddet ti a pham?	Is - Taflen barod gydag enwau trychfilod arnynt. Mynd a grwpiau o 4 ar y tro. Goruchwylio gan barhau i gynnal trafodaethau a'u hannog i feddwl am gwestiynau neu fynegi barn. Tasgau ychwanegol i'w cyflawni gydag oedolion (pwrpas, braslun o rôl ychwanegol yr oedolyn a'r dysgu) Creu model trychfil allan o glai. Goruchwyliaeth cynorthwyyraig er mwyn darparu cymorth pan fod angen. Trafod gyda chymdogion gan fynegi barn ar waith eraill, cynnig cymorth ac esbonio'r hyn maent yn eu gwneud. Gorffen plannu hadau a brynwyd yn y ganolfan arddio. Byddwn yn plannu ffa mewn potiau ac yn mynd a hwy i'r 'polstunnel' er mwyn iddynt hwy gael tyfu. (Mrs Lewis) Cynnal trafodaethau ymhlith y broses plannu - dwyn i gof ffeithiau a chyfrannu i sgwrs. Cyfleoedd i ddysgu'n annibynnol: Gorffen gwaith lliwio trychfilod yn ogystal ag unrhyw waith arall sydd ganddynt ar hanner		

	am drychfilod.		
Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod a sgiliau) Prif dasg - Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd - fi fy hun a phethau byw eraill Sgiliau – - Archwilio ac arbrofi - Meddwl am gwestiynau, gofyn cwestiynau a gwrandao ar atebion Ystod - Archwilio ystod eang o symbyliadau Ymdriniaeth Datblygiad Creadigol (Celf, chrefft a dylunio) - Dylunio a gwneud cynnyrch			
Llythrennedd (FfLIRh) Llinyn - Llafaredd ar draws y <u>cwricwlwm</u> Elfen- Datblygu a <u>chwyfwno gwybodaeth a syniadau</u> Agwedd- Siarad Sgil - <u>mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau</u> Llinyn - Llafaredd ar draws y <u>cwricwlwm</u> Elfen- Datblygu a <u>chwyfwno gwybodaeth a syniadau</u> Agwedd- Siarad Sgil - <u>gofyn cwestiynau amrwidiol, Pwy? Beth? Pryd? Pam? Ble?</u> Llinyn - Llafaredd ar draws y <u>cwricwlwm</u> Elfen- Datblygu a <u>chwyfwno gwybodaeth a syniadau</u> Agwedd- Siarad Sgil - <u>siarad yn fawr am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud gan sgluro'r broses</u> Sgil <u>grŵp is</u> - <u>siarad am bethau y maent wedi llunio neu gwneud</u> Llinyn - Llafaredd ar draws y <u>cwricwlwm</u> Elfen- Datblygu a <u>chwyfwno gwybodaeth a syniadau</u> Agwedd- Gwrandao Sgil is - <u>ddilyn gorchmynion gweithredol mwy cymhleth</u> Llinyn - Ysgrifennu ar draws y <u>cwricwlwm</u> Elfen - Trefnu syniadau a gwybodaeth		Rhifedd (FfLIRh) Llinyn - <u>Datblygu ymresymu rhifyddol</u> Elfen - <u>Adolygu</u> Sgil - <u>casglu a chofnodi data o:</u> <u>restrau a thablau</u> <u>diagramau</u> <u>graffiau bloc</u> <u>pictogramau lle bo'r symbol yn cynrychioli un uned</u> Llinyn - Datblygu ymresymu rhifyddol Elfen - Cynrychioli a chyfathrebu Sgil - <u>cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd</u>	

Agwedd - <u>Strwythur a threfn</u> Sgil - <u>defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r diben a'r darlennydd</u> Llinyn - <u>Darllen ar draws y cwricwlwm</u> Elfen - <u>Canfod dethol a defnyddio gwybodaeth</u> Agwedd - <u>Strategaethau darllen</u> Sgil - <u>defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i ddeall eu hystyr</u> Sgil <u>grŵp is</u> - <u>ddefnyddio pob ffonemau a graffem cyfatebol yn hyderus wrth svfuno a segmentu geiriau</u>			
FfCD	Meddwl	ADCDF	YCC
		Datblygu synnwyr o ryfeddod at harddwch tirluniau, cynefinoedd a phethau byw.	- Defnyddio'r iaith Gymraeg - Cydnabod bod sawl lefel wahanol o ruglder yn y Gymraeg - Addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg - Dysgu am y berthynas rhwng yr amgylchedd a phobl Cymru



Atodiad 2

S4: Welsh Language StandardExcellent

- Comments and Evidence

- Targets for improvement and suggested ways forward

Yn ystod y wers heddiw, ac yn arbennig yn ystod y cyflwyniad, dangoswyd gallu da iawn i gyfleu disgwyliadau'n glir mewn iaith y gallai pob plentyn ei ddeall drwy amrywio goslef y llais yn ôl yn effeithiol. Ymdrechwyd yn barhaus i annog y plant i siarad yn Gymraeg, gan fodelu ac ailadrodd y geiriau allweddol yn ystod y gwersi. Rhoddaist gyfle i'r dysgwyr ymarfer eu sgiliau llafar wrth drafod gyda'i gilydd mewn grŵp. Yn y ffeil PAP gwelwyd tystiolaeth bod gennynt adnoddau iaith da, yn cynnwys gafael gadarn ar eirfa, termau a sillafu geiriau cyffredin aml-ddefnydd. Gwelwyd mân wallau ieithyddol yn y gwerthusiadau. Dylet barhau i freinio dy sgiliau llythrennedd yn gyson gan ddefnyddio app treiglo, nodiadau 'taith ar iaith', cysill yn gyson fel dy fod yn modelu iaith o safon uchel yn barhaus i'r dysgwyr. Dalier ati wir!

Part 2: Progress Review

a) Comment on progress in relation to previously set targets (including lesson evaluations and end of week reviews) Yn ystod y wers a arsylwyd heddiw llwyddai i gyflawni'r targedau a osodwyd ar gyfer y wers heddiw sef hybu sgiliau llafar a chreadigol y dysgwyr a darparu heriau yn yr ardal allanol. Wrth edrych ar yr adolygiadau diwedd wythnos braf oedd gweld dy fod yn gosod targedau realistig ac yna yn mynd ati i'w cyflawni er mwyn gwella dy arfer proffesiynol. Yn ystod y profiad rwyd wedi gweithio'n gydwybodol i gyflawni'r

Atodiad 3 – Polisi Marcio

CYFFREDINOL

Mae marcio yn rhan bwysig o'r broses o asesu gwaith plant. O farcio gwaith mae'r athro yn darganfod beth mae plentyn yn ei wybod. Yn ogystal â hyn mae marcio'n rhoi cyfle i'r athro ddangos diddordeb yn y disgybl. Creir sefyllfa lle gellir canmol ac ymateb i waith y plentyn a chasglu gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol wrth baratoi gwaith pellach.

- Pan fo'n bosibl dylid marcio ym mhresenoldeb y plentyn a chanolbwyntio ar y gwallau gwaethaf. Dylid gwneud hyn mewn modd sensitif ac adeiladol.
- Lle nad oes modd bod gyda'r plentyn i drafod y gwaith yn yr Adran Iau dylid ysgrifennu sylw a fydd yn dangos i'r plentyn sut i symud ymlaen neu i wella ei waith/gwaith. Mae hi'n anodd i wneud hyn ar bob darn o waith ond disgwylir gwenud hyn ar un darn allan o bob tri.
- Yn y Cyfnod Sylfaen defnyddir sylwadau syml fel....**da iawn, llun manwl**.....
- Mae'n hollbwysig i farcio yn gyson, os na wneir hyn ni fyddwn yn dangos i'r plentyn fod yr hyn a grewyd ganddo/ganddi o bwysigrwydd nac ychwaith yn rhoi cyfle i'r plentyn ymateb ar ei union i broblem a welwyd. Bydd llwyddiant yn magu llwyddiant a dylai pob disgybl brofi hynny.

Y CYFNOD SYLFAEN

- Ar adegau bydd y plant yn ysgrifennu darn byr heb unrhyw help oddi wrth yr athrawes. Fe fydd yr ymarfer hyn yn dangos sut y mae'r sgiliau sylfaenol yn deall ydychydig. Ar ôl i'r plentyn ddanien ei waith i'r athrawes ac i'w rhoi yn oed os yw'r rhan fwyaf o'r gwaith yn annealladwy yn yr ystod oedran yma, y **peth caredig i wneud yw marcio'r gwaith** ar y diwedd yn unig a rhoi sylw pwrpasol i **ambell wall**. Byddai marcio'r gwaith yn drwyadl yn digalonni plentyn bach sydd ond yn dechrau dysgu sgiliau.
- Dylai'r plant sydd yn gwaithio ar **Lefel 2** gael llyfr neu rannu yn ôl llythrennau'r wyddor fel geiriadur syml. Gellir rhoi cymorth i'r plant trwy sillafu'r geiriau mwyaf anodd iddynt yn y llyfr hwn.
- Dewisir **geiriau amlwg a sillafwyd** yn anghywir a'u hail ysgrifennu rhyw **dair gwaith o dan waith y plentyn**. Gellir eu defnyddio fel rhyw fath o **brawf sillafu anffurfiol** gan ddefnyddio'r byrddau gwyn.